Annwyl Syr/Fadam

Yn dilyn fy e-bost ar 19 Medi 2014, rydw i bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth ar 18 Medi 2014, sef:

Darparwch ddadansoddiad o'r canlynol:

Manylion graddfeydd cyflog a swyddi nodweddiadol o fewn pob graddfa gyflog.
Nifer y gweithwyr gwrywaidd a benywaidd sydd ym mhob graddfa gyflog.
Y cyflogau cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd ym mhob graddfa gyflog, gan gynnwys unrhyw fonws neu daliadau eraill a ddarperir ar wahân.
Manylion a chanlyniadau unrhyw adolygiadau cyflogau sydd wedi ystyried cyflogau yn ôl rhyw, unrhyw fesurau eraill a gyflwynwyd er mwyn gwella, ac anghysondebau.

Gweler ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ein gwefan sy'n bodloni'ch cais, yn fy marn i, ym mhob ffordd namyn un (eich cais am fanylion swyddi nodweddiadol o fewn pob graddfa gyflog): http://www.wao.gov.uk/system/files/publications/WAO_Equality_Plan_Final_Welsh_2014.pdf

Yn ogystal, mewn ymateb i'ch cais am "fanylion ... swyddi nodweddiadol o fewn pob graddfa gyflog", gweler y tabl canlynol sy'n nodi'r swyddi (yn effeithiol o 1 Ebrill 2014 ymlaen) sydd wedi'u cynnwys ym mhob band cyflog a nodir yn Eitem 1 ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

Band cyflog	Y swyddi sydd yn y band cyflog
1	Swyddog Gwasanaethau Busnes Lefel 2, Swyddog Cyfathrebu Lefel 2, Swyddog Cyllid Lefel 1, Swyddog Adnoddau Dynol Lefel 1
2	Swyddog Gwasanaethau Busnes Lefel 3, Swyddog Cyfathrebu Lefel 2, Swyddog Cyllid Lefel 2
3	Archwilydd Ariannol Lefel 1, Swyddog Adnoddau Dynol Lefel 3, Swyddog Prosiect Perfformiad, Swyddog Cyfathrebu Digidol, Swyddog Cyfnewid Gwybodaeth
4	Arbenigwr Cydymffurfiaeth Lefel 1, Swyddog Gwasanaethau Busnes Lefel 4, Swyddog TG Lefel 2, Archwilydd Ariannol Lefel 3, Arbenigwr Technegol Lefel 1, Arbenigwr Cydymffurfiaeth Lefel 2, Swyddog Cyllid Lefel 3, Arbenigwr Perfformiad Lefel 1, Swyddog Adnoddau Dynol Lefel 4, Swyddog Cyfathrebu Lefel 4
5	Arbenigwr Perfformiad Lefel 2, Arbenigwr Technegol Lefel 2
6	Rheolwr Cyllid, Rheolwr Adnoddau Dynol, Pennaeth TG
7	Archwilydd Ariannol Lefel 4, Arbenigwr Perfformiad Lefel 3, Arbenigwr Technegol Lefel 3, Arbenigwr Cydymffurfiaeth Lefel 3
Cyfarwyddwr ac uwch	Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Grŵp, Penaethiaid Ymarfer, Arweinwyr Sector

Nid wyf wedi cyflwyno unrhyw esemptiadau, fodd bynnag, os ydych yn dymuno gwneud cwyn ynglŷn â'r modd yr wyf wedi trafod eich cais, anfonwch e-bost neu lythyr ataf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips